

## Cofion

Rydym yn parhau i gofio yn ein gweddiâu am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Cofiwn yn arbennig am Gwyn Jones (Peniel) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Walton ganol yr wythnos, a Gwyneth Rawson (Llanfair) gafodd anffawd i'w throed ddechrau'r wythnos ac sydd bellach yn cael gofal yn yr Inffirmari. Anfonwn ein cofion at y ddau, gyda'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr a buan. Parhawn i gofio hefyd am Megan Evans (Llansannan) gafodd ddod adre o'r ysbyty ganol yr wythnos. Hyderwn y bydd hithau'n parhau i wella ac i gryfhau bob dydd.

## Canu Carolau

Diolch i bawb sydd wedi dangos diddordeb i fynd i ganu carolau i rai o'r cartrefi gofal yn yr ardal. Bwriadwn gael ymarfer **nos Lun, Rhagfyr 4ydd** am 7.30 yn Llansannan. Os nad ydych chi'n medru dod nos Lun, wnewch chi adael i Mair wybod, os gwelwch yn dda? (Petai'r noson yn anghyfleus i nifer ohonoch, hwyrach y bydd rhaid i ni ail-drefnu, ond mae nosweithiau rhydd yn brin yr adeg yma o'r flwyddyn!) Os oes rhywun arall ag awydd ymuno â ni, croeso i chi wneud hynny ond plis cysylltwch cyn nos Lun fel y medrwn adael i chi wybod os bydd rhaid newid y trefniadau ymarfer.

## I ddod

- **PANED A SGWRS** – Bydd y criw yn mynd am ginio Nadolig i'r Ganolfan Grefftau yn Afonwen, dydd Mawrth, Rhagfyr 12fed am 12:30. Enwau i Hafwen Clwt Grugor neu Sian Fferwd **erbyn dydd Sul yma (3ydd)**, os gwelwch yn dda.
- **OEDFA NADOLIG I'R FRO** – oedfa deulu yn Llanefydd **am 10.30** bore Sul, Rhagfyr 24ain.
- **SWPER NADOLIG BRO ALED** yn Ffestri Llansannan, nos Iau, Rhagfyr 28ain am 7.30.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** yn ardal Talacre, dydd Gwener, Rhagfyr 29ain. Mae'r llwybr yn wastad ond yn eithaf amrwd, felly bydd angen esgidiau cerdded neu wellingtons ar bawb sy'n bwriadu dod. Byddwn yn cyfarfod am 10.30 ym maes parcio 'The Point', Station Road, Talacre (CH8 9RP) i gychwyn y daith gerdded fydd yn para oddeutu awr a hanner, ac yna mae croeso i bwy bynnag sy'n dymuno, ddod i gael cinio (neu fyrbryd) yng ngwesty'r Tŷ Gwyn, Rhualt am 12.30. (Nid yw'r daith gerdded yn addas ar gyfer olwynion, ond mae'n bosib i chi gerdded ar hyd llwybr tarmac arall gerllaw os byddwch yn dymuno hynny.)
- **\*PWYSIG\*** Rhowch eich enw i Mair **erbyn dydd Mawrth, Rhagfyr 19eg** os ydych am ymuno â ni am ginio fel y gallwn archebu'r bwyd ymlaen llaw (bwydlen a map ar gael gan Mair). Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen y wefan i weld a fydd y daith ymlaen ai peidio, neu cysylltwch â Mair.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 31ain **am 10.30** yng Nghapel Cefn Meiriadog.



# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3<sup>ydd</sup> Rhagfyr 2017

Darlleniad y Dydd

Deuteronomium 18:14-19  
(BCND tud.179 / BCN tud.164)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes atom ar Sul cyntaf Rhagfyr, a ninnau ond ychydig dros dair wythnos i ffwrdd o'r Nadolig! Hyd yn oed os ydi hynny'n gwneud i chi ochneidio'n ddwfn wrth feddwl am yr holl bethau sydd angen eu gwneud, cofiwch am y cyfle arbennig sydd gennym dros yr wythnosau nesaf i ystyried rhyfeddod Duw yn gwisgo cig a gwaed ein dynoliaeth. Byddwn yn dathlu ac yn diolch am ddyfodiad y Gwaredwr yn Oedfa Garolau a Phlygain Bro Aled yn Llansannan nos Sul nesaf. Dewch yn llw i fwynhau'r awyrgylch arbennig mewn golau kannwyll ac i addoli Crist o'r nef!

Bydd y darlleniad ar y cyd o bosib yn eich taro fel un ychydig yn rhyfedd. Beth yn union sy'n mynd ymlaen yma? Pan feddyliwch am eiriau'r garol 'Wele, cawsom y Meseia' (C. Ff. 441) ydych chi erioed wedi ystyried at beth mae'r cwplod 'darfu i Moses a'r proffwydi ddweud amdano cyn ei ddod' yn cyfeirio? Wrth gwrs, mae'n awgrymu fod cyfeiriadau at y Meseia trwy'r Hen Destament, ond yn achos y cyfeiriad at Moses, gallwn weld yn ein darlleniad heddiw gyswllt amlwg gyda dyfodiad Iesu i'r byd. Yn Deuteronomium 18, mae Duw yn addo y byddai un arall tebyg i Moses yn dod i arwain y bobl trwy fod yn enau i eiriau Duw yn eu plith. Proffwyd fyddai yn datgan gair Duw ac yn debyg i Moses gan ei fod yn codi o blith y bobl. Ac wrth i ni droi at y Testament Newydd, sylweddolwn mai Crist oedd pen draw'r addewid hwn – dyna mae Pedr yn ei egluro yn Actau 3:22-23.

Felly Iesu yw'r un a ddaeth â neges Duw i ni, a bydd y rhai sy'n ei anwybyddu yn atebol i Dduw am hynny (Deuteronomium 18:19). Ond wrth gwrs, nid proffwyd yn unig yw Iesu Grist fel y gwelwn ym mhennod gyntaf yr Efengyl yn ôl Mathew. Yn 1:21, gelwir mab Mair yn Iesu – 'am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau', ac yna Immanuel (y mae Duw gyda ni) yn 1:23. Duw yn dod i'w fyd yn fabi, ac yn achub pobl o'r union gyflwr sy'n eu gwahanu oddi wrth eu Creawdwr!

Wrth i ni dathlu genedigaeth Iesu eleni, gweddiwn am gymorth yr Ysbryd Glân i ymateb i'r hanes sydd mor gyfarwydd heb gau ein clustiau. Oherwydd cariad tragwyddol y daeth Iesu i'r byd ac yr aeth o'i wirfodd i'r groes i'n cymodi â Duw. Iesu yw'r negesydd a chanolbwynt y newyddion da o lawenydd mawr! Awn ato mewn ffydd, gan ddiolch am y cyfan a wnaeth dros ei bobl.

*Wele, cawsom y Meseia,  
cyfaill gwerthfawroca' 'rioed;  
darfu i Moses a'r proffwydi  
ddweud amdano cyn ei ddod:  
Iesu yw, gwir Fab Duw,  
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw. (Dafydd Jones 1711-1777)*

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 2:27-33 (BCND tud.63 / BCN tud.58)


DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

*Rhodri*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 3<sup>ydd</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun – 4<sup>ydd</sup> ➤ **Ymarfer** yn Llansannan am 7.30 i'r rhai sydd am fynd i ganu carolau i'r cartrefi gofal (*gwelwch y dudalen gefn*).
- Mercher – 6<sup>ed</sup> ➤ **Cyfarfod Gwedd'i'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 7<sup>fed</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 8<sup>fed</sup> ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Sul nesaf – 10<sup>fed</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00. (*Rhaghysbys: Cinio Nadolig ar Rhagfyr 22<sup>ain</sup> – enwau erbyn Rhagfyr 15<sup>fed</sup>, os gwelwch yn dda.*)



### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 3<sup>ydd</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 3<sup>ydd</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 3<sup>ydd</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Mercher – 6<sup>ed</sup> ➤ Bydd Pwyllgor i drefnu Parti Nadolig Ysgol Sul Undebol Llansannan am 7.30. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 6<sup>ed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW** (3<sup>ydd</sup>), os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 3<sup>ydd</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Mawrth – 5<sup>ed</sup> ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn Ffestri'r Capel am 3.15.
- Sul nesaf – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 3<sup>ydd</sup> ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.
- Gwener – 8<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **HEDDIW** (3<sup>ydd</sup>), os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

### Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.